**Medi 2025**

**At: Pob claf sydd wedi cofrestru ym Meddygfa Mount Pleasant a Meddygfa Wye Dean sy'n byw yn y cyfeiriad hwn**

Annwyl Glaf,

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi derbyn hysbysiad y bydd Meddygfa Mount Pleasant a Meddygfa Wye Dean yn uno i ffurfio un feddygfa o 16 Medi 2025 ymlaen, a bydd yn cael ei galw'n **Meddygfa Mount Pleasant** o'r dyddiad hwnnw.

Mae'r contractau Gwasanaeth Meddygol Cyffredinol ar gyfer y ddwy feddygfa ar hyn o bryd yn cael eu dal gan yr un Bartneriaeth, sef Dr A Holtam a Mr H Jones. Mae'r meddygon a'r staff yn Feddygfa Mount Pleasant ac yn yr hen Feddygfa Wye Dean wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau eich bod yn parhau i dderbyn gwasanaethau meddyg teulu o ansawdd uchel. Byddwch yn parhau i gysylltu â'ch meddygfa yn yr un ffordd ag yr ydych yn ei wneud ar hyn o bryd, a byddwch yn cael eich gweld yn yr un safle ag o'r blaen. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cefnogi uno'r meddygfeydd ac yn dymuno eich sicrhau na fydd unrhyw effaith ar wasanaethau clinigol nac ar amseroedd agor, a bydd y gwasanaethau hyn yn parhau i gael eu darparu o'r holl safleoedd a restrir isod:

**Meddygfa Mount Pleasant – Prif safle**
Ysbyty Cymunedol Cas-gwent
Ffordd Tempest
Cas-gwent
NP16 5XR Ffôn:
01291 440154

**Meddygfa Porthsgiwed – Meddygfa Gangen**
12a Prif Ffordd Porthsgiwed
Cil-y-Coed

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**
Gofal Sylfaenol a Rhwydweithiau Is-adran
Ty Llanarth
Uned 1, Porth Trecelyn
Stryd y Bont
TRECELYN NP115GH
Ffon: 01495 241200

**Aneurin Bevan University Health Board**
Primary Care and Networks Division
Llanarth House
Unit 1, Newbridge Gateway
Bridge Street
NEWBRIDGE NP115GH
Tel: 01495 241200

**Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yw enw gweithredol Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan**
**Aneurin Bevan Health Board is the operational name of Aneurin Bevan Local Health Board**

NP26 5SG
Ffôn: 01291 425242

**Meddygfa Wye Dean – Meddygfa Gangen**
Yr Hen Orsaf Heddlu
Tyndyrn
Cas-gwent
NP16 6SE
Ffôn: 01291 689355

Nid oes angen i chi wneud unrhyw beth ac fe fyddwch yn parhau i fod yn glaf cofrestredig gyda Meddygfa Mount Pleasant. Ni fydd unrhyw newid i'r ffordd rydych yn cael eich presgripsiynau nac yn cael mynediad at wasanaethau ar hyn o bryd.

Os oes gennych unrhyw bryderon neu ymholiadau ynghylch y canlyniad hwn, mae croeso i chi gysylltu ag aelod o'r Tîm Gofal Sylfaenol ar 01495 241236.

Yn gywir,



**Lloyd Hambridge**

**Cyfarwyddwr Is-adran Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Cymunedol, a Gofal Cymhleth a Hirdymor**